



Canolfan Gefnogaeth Trais a Charm-drin Rhywiol Gogledd Cymru
Rape & Sexual Abuse Support Centre North Wales

HYFFORDDWR, HWYLUSYDD GRWPIAU A GWEINYDDWR CLINIGOL RASASC GOGLEDD CYMRU

CYFLOGWR:	RASASC Gogledd Cymru
CYFLOG:	£25,000 - £27,000 pro rata 35 awr yr wythnos
LLEOLIAD:	Gogledd Cymru
MATH O GONTRACT:	Tymor penodol rhan amser am 12 mis, gyda phosibilrwydd o estyniad yn amodol ar gyllid
DYDDIAD CAU:	Dydd Gwener 24 Awst 2020
DYDDIADAU CYFWELIAD:	Wythnos yn dechrau 31 Awst 2020
DYDDIAD DECHRAU:	5 Hydref 2020
ORIAU AR DDYLETSWYDD:	28 awr yr wythnos – gellir trafod swm yr oriau

Bydd deiliad y swydd yn adrodd i'r Rheolwr Gweithrediadau, ac mae'n atebol i'r Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth arbenigol sy'n seiliedig ar drawma i unrhyw un o unrhyw rywedd sydd wedi bod yn destun trais rhywiol ar unrhyw adeg o'u bywyd, drwy amrywiaeth o fecanweithiau cyflwyno gan gynnwys: cwnsela unigol, a gwaith grŵp seico-addysgol

Datganiad o Fwriad RASASC Gogledd Cymru

Mae Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru yn darparu cefnogaeth arbenigol annibynnol i alluogi oedolion a phlant i weithio drwy eu profiad o drais a/neu drais rhywiol. Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn rhan o'r gwasanaethau a ddarperir, gyda chwmselwyr hyfforddedig a chymwys yn cael eu talu fel gweithwyr sesiynol i ddarparu cwnsela.

11 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor LL57 4DF
Llinell gymorth **Helpline** 0808 80 10 800 www.rasacymru.org.uk
Swyddfa **Office** 01248 670628 E-bost **Email** info@rasacymru.org.uk Ffacs **Fax**
01248 719544

Mae'r rôl hon yn amodol ar wiriad manylach gan y DBS

DIBEN Y SWYDD:

Darparu rhaglen gwaith grŵp seico-addysgol lle gall goroeswyr fyfrio ar faterion anodd a dysgu sut i reoli'n effeithiol unrhyw beth a allai ddod i ganlyn y materion hynny.

Parhau i ddatblygu'r fforymau goroesi.

Datblygu ac ymestyn yr amserlen hyfforddi ar gyfer cwmselwyr a gweithwyr cymorth a hwyluswyr grwpiau.

Parhau i ddatblygu rhaglen hyfforddi fewnol RASASC Gogledd Cymru, a chael achrediad ar gyfer yr hyfforddiant gan gorff achredu cydnabyddedig.

Bydd yn ofynnol hefyd i ddeiliad y swydd ddatblygu'r gwaith grŵp a'r amserlen hyfforddi, a'u strwythuro ar gyfer grwpiau gwahanol ac amrywiol o gleientiaid, h.y. Oedolion sy'n goroesi trais rhywiol tra'n blant, oedolion sy'n goroesi trais rhywiol tra'n oedolion, cleientiaid gwrywaidd, Rhieni cleientiaid trais rhywiol tra'n blant, ac ymhellach.

Cynnal asesiadau cychwynnol o gleientiaid newydd

Dyrannu cleientiaid newydd i'r cwmselwyr priodol

Ymgymryd â'r holl waith gweinyddol arweiniol clinigol

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL:

HYFFORDDIANT

- Datblygu ymhellach, trefnu a chydlynu (ac mewn rhai achosion cyflwyno) hyfforddiant ar ran RASASC Gogledd Cymru.
- Sicrhau achrediad i hyfforddiant mewnol RASASC Gogledd Cymru drwy gorff achredu cydnabyddedig
- Cymryd rhan mewn gwaith recriwtio, cyfweld, hyfforddi a gwerthuso cwmselwyr sesiynol, ynghyd â myfyrwyr ar leoliad.
- Cyflawni'r holl waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant
- Ateb galwadau yn y swyddfa ac ymdrin ag atgyfeiriadau ac asiantaethau a phartneriaid allanol.
- Ateb galwadau a chysylltu â chleientiaid.

11 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor LL57 4DF

Llinell gymorth **Helpline** 0808 80 10 800 www.rasacymru.org.uk

Swyddfa **Office** 01248 670628 E-bost **Email** info@rasacymru.org.uk Ffacs **Fax** 01248 719544



Canolfan Gefnogaeth Trais a Charm-drin Rhywiol Gogledd Cymru
Rape & Sexual Abuse Support Centre North Wales

GWAITH GRŴP

- Helpu i sefydlu amgylchedd diogel a chynhwysol lle gall aelodau grwpiau drafod profiadau trallodus a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu clywed a'u cefnogi.
- Cynorthwyo'r grŵp i gynhyrchu rheolau grŵp i helpu i greu lle diogel.
- Arwain y grŵp i fyfyrio ac archwilio eu hanawsterau gan ddefnyddio cynllun gwaith seico-addysgol strwythuredig ar gyfer y grŵp.
- Sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn cael cyfle i gymryd rhan a chael eu clywed, gan sicrhau bod sylw'n cael ei rannu'n weddol deg rhwng aelodau.
- Cefnogi aelodau'r grŵp i ddysgu am ffyrdd priodol o ymateb i'w gilydd drwy fodelu rôl rhai ffyrdd o ymateb.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, cyfrinachedd a pholisi a gweithdrefnau rhannu gwybodaeth a'r holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. Cadw golwg ar newidiadau a chydymffurfio â'r holl bolisiau gweithdrefnau sefydliadol a chodau ymddygiad proffesiynol a chynnal safonau arfer gorau.
- Ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth yn y maes gwasanaeth yn barhaus.
- Gallu rhoi sylw priodol i drallod aelodau'r grŵp a rheoli'r sefyllfaoedd hynny. Sicrhau bod cyfleoedd i aelodau gael gafael ar gymorth pellach os oes angen, ac ymwybyddiaeth o faterion risg.
- Cymryd cyfrifoldeb am reoli atgyfeiriadau i'r Grwpiau a chydweithio â'r cyfranogwyr hyn sydd â diddordeb i sefydlu ai'r grŵp hwn fydd yn diwallu eu hanghenion orau
- Cyflawni'r holl waith gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwaith grŵp
- Ateb galwadau yn y swyddfa ac ymdrin ag atgyfeiriadau ac asiantaethau a phartneriaid allanol.
- Ateb galwadau a chysylltu â chleientiaid.

Mae natur y gwaith yn golygu bod tasgau a chyfrifoldebau yn anrhagweladwy ac yn amrywiol mewn llawer o amgylchiadau. Gan hynny, mae disgwyl i'r holl weithwyr weithio mewn ffordd hyblyg, ac mae posibilrwydd y bydd yn rhaid ymgymryd â thasgau nad ydyn nhw wedi eu cynnwys yn benodol yn eu disgrifiad swydd.

11 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor LL57 4DF

Llinell gymorth [Helpline 0808 80 10 800](tel:08088010800) www.rasacymru.org.uk

Swyddfa [Office 01248 670628](tel:01248670628) E-bost [Email info@rasacymru.org.uk](mailto:info@rasacymru.org.uk) Ffacs [Fax 01248 719544](tel:01248719544)



GWYBODAETH, SGILIAU A PHROFIAD:

Yn barod i chwarae rhan ragweithiol gyda rhwydwaith VAWDASV Gogledd Cymru, a chymryd rhan yn hyfforddiant mewnol RASASC Gogledd Cymru	(H)
Gwybodaeth glinigol a damcaniaethol am sut i weithio'n seicolegol gyda cham-drin rhywiol a thrais	(H)
Ymwybyddiaeth o effaith hirdymor trais rhywiol ar oedolion sy'n ei oroesi, a'r broses o ddatrys materion a theimladau cymhleth mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma	(H)
Profiad amlwg o weithio fel hwylusydd grŵp gyda goroeswyr cam-drin rhywiol	(H)
Yn gallu dylunio, hwyluso a gwerthuso ehangu'r gwaith grŵp sy'n benodol i gam-drin rhywiol	(H)
Aelod achrededig o BACP neu gorff cyfatebol	(H)
Ar gael ac yn barod i weithio oriau hyblyg, fel sy'n ofynnol gan RASASC Gogledd Cymru	(H)
Gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg	(D)
Meddu ar gymhwyster hyfforddi	(D)
Deall rôl yr holl wasanaethau statudol ac anstatudol perthnasol sydd ar gael i oroeswyr trais rhywiol a sut mae eich rôl yn cyd-fynd â nhw.	(D)

(D) Dymunol (H) Hanfodol

Yn ogystal, bydd gan ddeiliad y swydd:

- Ymrwymiad i werthoedd, egwyddorion, polisiau a ffyrdd o weithio RASASC Gogledd Cymru ac i gwblhau a dychwelyd y gwaith papur gofynnol, a chadw at bolisiau a gweithdrefnau RASASC Gogledd Cymru
- Ymrwymiad i'ch datblygiad personol a phroffesiynol eich hun a datblygiad pobl eraill.
- Sgiliau cyfrifiadurol da
- Hunan-ymwybyddiaeth a sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol cryf
- Sensitifrwydd i wahaniaethau diwylliannol, a'r gallu i weithio mewn lleoliad amrywiol
- Ymrwymiad a dealltwriaeth amlwg o hyrwyddo Cyfle Cyfartal yn gadarnhaol, gan werthfawrogi amrywiaeth ac arfer gwrth-wahaniaethol
- Y gallu i weithio o fewn yr ethos ac i barchu cytundeb Cyfrinachedd ac egwyddorion craidd RASASC Gogledd Cymru, a gweithio yn unol ag egwyddorion cyfle cyfartal i bawb
- Y gallu i lunio adroddiadau ysgrifenedig.
- Parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth y gymuned mae'r gwasanaethau'n gweithio ynddi a chydabod anghenion a phryderon ystod amrywiol o gleientiaid, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb.
- Profiad o ddarparu hyfforddiant mewn amrywiaeth o leoliadau
- Profiad o weithio gydag amrywiaeth o asiantaethau yn y sector statudol a gwirfoddol
- Gwybodaeth am amddiffyn plant a phwysigrwydd cyfrinachedd yn y maes gwaith hwn
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, mewn partneriaeth ac fel rhan o dîm
- Helpu i gynnal cofnodion a chronfeydd data rheoli achosion cywir a chyfrinachol a chyfrannu at fonitro gwybodaeth ar gyfer y gwasanaeth.
- Sgiliau trefnu a blaenoriaethu da
- Dull brwdfrydig a rhagweithiol
- Y gallu i ymateb yn hyblyg i newid
- Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant a goruchwyliaeth
- Gallu defnyddio car yn fanteisiol
- Cymryd rhan mewn prosesau cymorth a goruchwyliaeth rheoli llinell
- Mynychu cyfarfodydd staff a hyfforddiant yn ôl yr angen
- Gweithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen
- Cyflawni unrhyw ddyletswydd arall sydd o fewn cwmpas, ysbryd a phwrpas y swydd a'i gradd yn unol â chais y Rheolwr Prosiect

11 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor LL57 4DF

Llinell gymorth **Helpline** 0808 80 10 800 www.rasacymru.org.uk

Swyddfa **Office** 01248 670628 E-bost **Email** info@rasacymru.org.uk Ffacs **Fax** 01248 719544



Canolfan Gefnogaeth Trais a Charm-drin Rhywiol Gogledd Cymru
Rape & Sexual Abuse Support Centre North Wales

CYFLE CYFARTAL:

Mae RASASC Gogledd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol.

Os ydych chi wedi nodi bod gennych chi anabledd, bydd y rheolwr recriwtio yn cael gwybod am hyn er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael cyfweiliad mewn lleoliad priodol, hygyrch. Bydd yr wybodaeth a roddwch yn yr adran monitro recriwtio yn cael ei chadw'n gyfrinachol gan RASASC Gogledd Cymru ac yn cael ei storio yn unol â deddfwriaeth GDPR. Defnyddir yr wybodaeth at ddibenion ystadegol i alluogi RASASC Gogledd Cymru i gyflawni ei rwymedigaethau monitro cyfle cyfartal.

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd hon, cyflwynwch gopi o'ch CV a'r ffurflen gais i jane@rasawales.org.uk erbyn dydd Gwener 24 Gorffennaf 2020. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ewch i www.rasacymru.org.uk

11 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor LL57 4DF
Llinell gymorth **Helpline** 0808 80 10 800 www.rasacymru.org.uk
Swyddfa **Office** 01248 670628 E-bost **Email** info@rasacymru.org.uk Ffacs **Fax**
01248 719544

Rhif elusennol **Charity Number** 1057159